Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

the latest from
# the newsroom

## Welcome to the Awel y Môr Newsletter

July 2021


### A message from Tamsyn Rowe, the Project Manager



Hello and welcome to the latest Awel y Môr newsletter. In this edition I will outline what the team has been working on recently, plus the emerging plans for our forthcoming statutory consultation. This will be another opportunity for you to have your say on the project and we hope you will get involved. We will be welcoming all your comments on our proposals, and encourage you to look at the exhibition live on our project website from the end of August into early October. If at all possible, we will also host face-to-face information events in North Wales in a Covid-compliant manner. More detail below and because government and company Covid 19 policies may impact our plans, please keep an eye on our website for the latest information: www.awelymor.cymru.

### Environmental studies continue







Above: environmental surveys took place along the proposed cable route

Through 2020 and the first half of 2021, survey teams have been busy collecting information along the onshore cable corridor and at the substation zone, as well as the surrounding areas. Surveys have looked at the geology and ecology of the area (bat surveys, newt surveys, tree surveys etc) and aspects of the human environment (traffic data collection, land use, archaeology surveys etc). Where possible, local surveyors have been undertaking the work. The information they have gathered will inform our Environmental Impact Assessment and help us understand how we can avoid, minimise or mitigate any potential impacts arising from the project.


Fferm Wynt Alltraeth


AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm



## Working with Scientists at Bangor University





Awel y Môr is delighted to be working with scientists at the world renowned School of Ocean Sciences, Bangor University. Hannah Gandly has accepted a PhD to investigate the seabed for renewable energy projects. This will look at the characterisation of the sub-seafloor, where a better understanding of the buried glacial landscape can help predict the complexity of geotechnical properties.

Hannah Gandley said:

"I was first attracted to this PhD as it encompasses all my academic interests - renewable energy, geophysical surveying, and geotechnical engineering. The Irish Sea has a huge renewable energy potential and I am excited to be part of a project that will hopefully make offshore renewables in formerly glaciated areas even more competitive at a time where there is a such a demand for cleaner energy. Starting a PhD in a global pandemic has been challenging at times but I am thoroughly enjoying the experience and am looking forward to working further with RWE Renewables during the project."

## Planning for our formal public consultation

In addition to the non-statutory consultation that took place in late 2020, we are in the process of planning the project's Awel y Môr statutory consultation for late summer/early autumn. This will offer a further opportunity to provide feedback on our proposals during the development phase of the project, prior to the submission of our applications for the necessary development consents in 2022. The consultation plan has been developed via a...

## Statement of Community Consultation (SoCC)

The SoCC is a document setting out how we intend to consult the local community on our proposals. The Planning Act 2008 requires us to agree a SoCC with our 'host' local planning authority - Denbighshire County Council, given the location of Awel y Môr's proposed cable route and onshore infrastructure.

We have chosen to extend discussions on the SoCC to <u>all</u> neighbouring coastal local planning authorities, including Snowdonia National Park Authority. We hope this expanded approach ensures that the SoCC establishes how best to consult the local and wider communities. We are also working hard to ensure the SoCC is flexible to any changes in pandemic-related matters.

## Next steps

Once the SoCC is agreed, it will direct our statutory consultation – currently planned for 31 August to 11 October 2021. An exhibition will be accessible via the Awel y Môr website, and (subject to Covid-related constraints) at live events happening around the area. Look out for more timely information in our next newsletter, planned for August, and on the project website.

Meanwhile, the team is further refining the project in response to last year's community consultation and pulling together the results of all the technical studies and environmental surveys that have taken place to date. This work will be published in a Preliminary Environmental Information Report (PEIR) that will form the basis of the statutory consultation, under the SoCC.

If you have any comments or queries about the project however, you don't need to wait for our next consultation. Please feel free to contact us at any time: awelymor@rwe.com

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

y diweddaraf o'r
# ystafell newyddion

## Croeso i Gylchlythyr Awel y Môr


Gorffennaf 2021

### Neges gan Tamsyn Rowe, Rheolwr y Prosiect



Helo a chroeso i gylchlythyr diweddaraf Awel y Môr. Yn y rhifyn hwn, byddaf yn amlinellu'r hyn y mae'r tîm wedi bod yn gweithio arno'n ddiweddar, ynghyd â'r cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer ein hymgynghoriad statudol sydd ar fin digwydd. Bydd hwn yn gyfle arall i chi ddweud eich dweud am y prosiect ac rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n cymryd rhan. Byddwn yn croesawu eich holl sylwadau ar ein cynigion, ac yn eich annog i edrych ar yr arddangosfa'n fyw ar wefan ein prosiect o ddiwedd mis Awst hyd at ddechrau mis Hydref. Os oes modd, byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth wyneb yn wyneb yng Ngogledd Cymru, gan gydymffurfio â rheolau Covid. Mae rhagor o fanylion isod. Ond cofiwch, oherwydd y gallai polisïau Covid 19 y llywodraeth a'r cwmni effeithio ar ein cynlluniau, cadwch lygad ar ein gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf: www.awelymor.cymru.

### Astudiaethau amgylcheddol yn parhau


Uchod: arolygon amgylcheddol ar hyd y llwybr ceblau arfaethedig

Drwy gydol 2020 a hanner cyntaf 2021, mae timau'r arolwg wedi bod wrthi'n brysur yn casglu gwybodaeth ar hyd coridor y ceblau ar y tir ac ym mharth yr is-orsaf, yn ogystal â'r ardaloedd cyfagos. Mae arolygon wedi edrych ar ddaeareg ac ecoleg yr ardal (arolygon ystlumod, arolygon madfallod dŵr, arolygon coed ac ati) ac agweddau ar yr amgylchedd dynol (casglu data traffig, defnydd tir, arolygon archaeoleg ac ati). Lle bo modd, syrfewyr lleol sydd wedi bod yn gwneud y gwaith. Bydd yr wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu yn sail i'n Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn ein helpu ni i ddeall sut gallwn ni osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau posib sy'n deillio o'r prosiect.

Fferm Wynt Alltraeth


AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Gweithio gyda Gwyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor





Mae Awel y Môr yn falch iawn o fod yn gweithio gyda gwyddonwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion byd enwog ym Mhrifysgol Bangor. Mae Hannah Gandly wedi derbyn PhD i ymchwilio i wely'r môr ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Bydd hyn yn edrych ar nodweddion y llawr o dan y môr, lle gall gwell dealltwriaeth o'r dirwedd rewlifol gladdedig helpu i ragweld cymhlethdod nodweddion geodechnegol.

Dywedodd Hannah Gandley:
"Cefais fy nenu yn gyntaf at y PhD hwn am ei fod yn cwmpasu fy holl ddiddordebau academaidd – ynni adnewyddadwy, tirfesur geoffisegol, a pheirianneg geodechnegol. Mae gan Fôr Iwerddon botensial enfawr o ran ynni adnewyddadwy ac rwy'n edrych ymlaen at fod yn rhan o brosiect a fydd, gobeithio, yn gwneud ynni adnewyddadwy ar y môr mewn ardaloedd rhewlifol gynt hyd yn oed yn fwy cystadleuol ar adeg lle mae cymaint o alw am ynni glanach. Mae dechrau PhD mewn pandemig byd-eang wedi bod yn heriol ar brydiau, ond rwy'n mwynhau'r profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen at weithio mwy gyda RWE Renewables yn ystod y prosiect."

## Cynllunio ar gyfer ein hymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol

Yn ogystal â'r ymgynghoriad anstatudol a gynhaliwyd ddiwedd 2020, rydyn ni wrthi'n cynllunio ymgynghoriad statudol Awel y Môr ar gyfer diwedd yr haf/dechrau'r hydref. Bydd hyn yn gyfle arall i roi adborth ar ein cynigion yn ystod cam datblygu'r prosiect, cyn cyflwyno ein ceisiadau am y cydsyniadau datblygu angenrheidiol yn 2022. Mae'r cynllun ymgynghori wedi cael ei ddatblygu drwy'r canlynol.

## Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Dogfen yw hon sy'n nodi sut rydyn ni'n bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch ein cynigion. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu ein bod yn cytuno ar Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol gyda'n hawdurdod cynllunio lleol 'cynhaliol' – Cyngor Sir Ddinbych, o ystyried lleoliad llwybr cebl arfaethedig Awel y Môr a'r seilwaith ar y tir.

Rydyn ni wedi dewis ymestyn trafodaethau ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol i bob awdurdod cynllunio lleol arfordirol cyfagos, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y dull gweithredu estynedig hwn yn sicrhau bod y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol yn sefydlu'r ffordd orau o ymgynghori â'r cymunedau lleol ac ehangach. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol yn hyblyg ar gyfer unrhyw newidiadau mewn materion sy'n ymwneud â'r pandemig.

## Camau nesaf

Ar ôl cytuno ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol, bydd yn cyfarwyddo ein hymgynghoriad statudol – sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer 31 Awst i 11 Hydref 2021. Bydd arddangosfa ar gael drwy wefan Awel y Môr, ac (yn amodol ar gyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid) mewn digwyddiadau byw ledled yr ardal. Cadwch lygad am wybodaeth fwy amserol yn ein cylchlythyr nesaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Awst, ac ar wefan y prosiect. Yn y cyfamser, mae'r tîm yn mireinio'r prosiect ymhellach mewn ymateb i'r ymgynghori cymunedol y llynedd ac yn casglu ynghyd ganlyniadau'r holl astudiaethau technegol a'r arolygon amgylcheddol sydd wedi'u cynnal hyd yma. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi mewn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol a fydd yn sail i'r ymgynghoriad statudol, o dan y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol.

Fodd bynnag, os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y prosiect, does dim angen i chi aros tan ein hymgynghoriad nesaf. Mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw dro: awelymor@rwe.com